8 Chwefror 2018

**Date/**Dyddiad: Cynghorydd John Thomas

**Ask for**/ Gofynwch am:

**Telephone**/Rhif ffôn: .446 709469

**Fax**/Ffacs:

**Your Ref**/Eich Cyf: VT/NM/CC/SF/47929

**My Ref**/Cyf: VThomas@valeofglamorgan.gov.uk

**e-mail**/e-bost:

**The Vale of Glamorgan Council**
Civic Offices, Holton Road, Barry, CF63 4RU
Tel: (01446) 700111

Textphone/Ffôn Testun: (01446) 709363
www.valeofglamorgan.gov.uk

**Cyngor Bro Morgannwg**
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU
Ffôn: (01446) 700111

Ms Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg
Llywodraeth Cymru
5ed llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Ysgrifennydd Cabinet

**<u>Cyllid addysg fesul disgybl ym Mro Morgannwg</u>**

Rydym yn cyfeirio at ohebiaeth flaenorol ar fater lefelau ariannu disgyblion ym Mro Morgannwg.

Ysgrifennodd Cadeirydd Fforwm Cyllideb Bro Morgannwg atoch ar ran y Fforwm ar 20 Medi 2017 parthed y lefel o gyllid a gyllidebir fesul disgybl ym Mro Morgannwg o'i gymharu â gweddill Cymru. Yn y llythyr hwnnw nodwyd y pryderon canlynol gennym

- Mae disgyblion ym Mro Morgannwg yn parhau i gael eu hariannu ar y lefel isaf yng Nghymru.
- Mae'r gwariant a gyllidebir fesul disgybl yn 2017/18 ar yr un lefel ag yr oedd yn 2012/13. Wrth ystyried cost chwyddiant, a chynnydd o ran blwydd-dal, yn ogystal â'r ardoll prentisiaeth newydd, mae'r cyllid sydd ar gael fesul disgybl yn sylweddol llai nawr nag yn 2012.
- Mae'r bwlch rhwng lefelau cyllid fesul disgybl ym Mro Morgannwg a'r cyfartaledd cenedlaethol wedi cynyddu £163 fesul disgybl. Yn 2015/16 ariannwyd disgyblion ym Mro Morgannwg £443 o dan gyfartaledd Cymru ac yn 2016/17 ariannwyd disgyblion ym Mro Morgannwg £606 yn is na chyfartaledd Cymru.
- Mae'r bwlch rhwng yr awdurdodau isaf ac uchaf eu cyllid yn nhermau cyllid fesul disgybl wedi cynyddu bob blwyddyn o 23% yn 2014/15 i 27% yn 2017/18.

- Mae Bro Morgannwg wedi ariannu gwasanaethau addysg yn uwch nag Asesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion (IBA) ers mis Ebrill 2013 ac eto mae ariannu fesul disgybl yn parhau yr isaf trwy Gymru.
- Mae Awdurdodau Lleol eraill wedi ariannu Addysg yn is nag Asesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion (IBA) ac eto mae disgyblion yn yr awdurdodau hynny yn dal i dderbyn cyllid uwch na disgyblion ym Mro Morgannwg. Mae hyn yn peri i ni gredu bod rhywbeth cynhenid o'i le gyda fformiwlâu Asesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion (IBA) ac Asesiad o Wariant Safonol (SSA) Llywodraeth Cymru.

Codwyd pryderon tebyg yn llythyr yr Arweinydd ar 21 Medi 2017 i'r Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar y pryd, a'u copïo i chi.

Gofynnwyd eich bod yn rhannu eich methodoleg wedi'i chymhwyso ar lefel genedlaethol i gyfrifiadau IBA Awdurdodau Lleol sy'n arwain at y fath anghyfartaledd ymddangosiadol o ran cyllid i ddisgyblion ledled Cymru ar draul disgyblion ym Mro Morgannwg. Gofynnwyd hefyd y byddech yn ystyried adolygiad o fethodoleg yr IBA mewn ymdrech i sicrhau mwy o dryloywder ac i sicrhau tegwch o ran cyllid i ysgolion ar draws Cymru.

Yn eich ymateb dyddiedig ar 10 Hydref 2017, fe wnaethoch ein cyfeirio at y Llyfr Gwyrdd, ac rydym wedi treulio cryn dipyn o amser yn ei ddadansoddi. Gwnaethoch ein sicrhau fod y fformiwla yn cael ei chadw o dan raglen barhaus o adolygu a gwella gan yr Is-Grŵp Dosbarthu (DSG), er bod y Llyfr Gwyrdd ei hun yn dweud bod yr adolygiad llawn mwyaf diweddar yn 2001. Rydym hefyd yn nodi nad yw Cyngor Bro Morgannwg wedi'i gynrychioli ar y DSG.

Ysgrifennodd Cadeirydd y Fforwm yn ôl atoch ar 18 Rhagfyr 2017 oherwydd ein bod o'r farn bod nifer o'n pryderon yn parhau heb eu hateb.

Yn y llythyr hwnnw, esboniwyd bod fforwm y gyllideb wedi treulio cryn dipyn o amser yn dadansoddi'r Llyfr Gwyrdd a darparwyd dwy enghraifft benodol, a ddangosodd lle roeddem yn teimlo bod eich fformiwla yn wallus ac nad yw'n berthnasol bellach. Nid ein prif feysydd pryder na'n hunig feysydd pryder oedd y ddwy enghraifft a roddwyd, ond fe'u darparwyd er mwyn dangos cyn gyflymed yr oeddem wedi adnabod dau faes lle'r oedd yn amlwg bod angen diweddaru'r fethodoleg. Mae hyn wedi'n harwain i ddod i'r casgliad ei fod yn debygol bod meysydd eraill o fewn y fformiwla sy'n wallus; a bod y gofyn am adolygiad llwyr yn amlwg.

Derbyniwyd ymateb i'r ail lythyr hwn gan eich cydweithiwr, yr Ysgrifennydd Cabinet dros Lywodraeth Leol, Alun Davies. Cyfeiriodd yr ymateb hwn at y pedair egwyddor sy'n sail i'r fformiwla, sef tegwch, sefydlogrwydd, eglurder a pherthnasedd. Ein barn ni yw bod yr un llythyr yn gwrthddweud y datganiad hwn gan gadarnhau defnydd ar ddata cyfrifiad 1991 i yrru dosbarthiad £165miliwn o gyllid teneurwydd poblogaeth a fformiwla addysg arbennig sy'n seiliedig ar niferoedd y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yr ydym yn nodi

nad yw wedi newid ers 2003. Hoffem ofyn i chi a ydych wirioneddol argyhoeddedig y gall y pedair egwyddor: tegwch, sefydlogrwydd, eglurder a pherthnasedd gael eu priodoli mewn gwirionedd i fformiwla sy’n amlwg wedi dyddio ac heb dderbyn adolygiad llawn ers 2001.

Nid yw’r ddau ymateb rydym wedi eu derbyn gan Lywodraeth Cymru wedi rhoi unrhyw hyder i ni o ran y fethodoleg a ddefnyddiwyd i ddosbarthu cyllid addysg ar draws Cymru ac nid ydynt wedi rhoi unrhyw arwydd o unrhyw barodrwydd ar ran Llywodraeth Cymru i fynd i’r afael â’r hyn a ystyriwn ni, fel problemau gwirioneddol a godwyd gennym.

Felly rydym, yn anffodus, wedi dod i’r casgliad mai’r camau gweithredu mwyaf priodol i Fforwm Cyllid Bro Morgannwg yw rhannu ein pryderon gyda rhieni’r disgyblion rydym yn gyfrifol amdanynt, a sicrhau bod y cyhoedd yn cael gwybod mai ein barn ni yw bod addysg disgyblion ym Mro Morgannwg o dan anfantais o’i chymharu â disgyblion mewn awdurdodau eraill, a hynn oherwydd defnydd ar fformiwla gan Lywodraeth Cymru sy’n hanesyddol, yn wallus ac wedi dyddio.

Yn gywir

Y Cynghorydd John Thomas
Yr Arweinydd
Cyngor Bro Morgannwg

Dr V M Browne
Pennaeth
Cadeirydd Fforwm Cyllid Cyngor Bro Morgannwg